

Tud 1.

Drafft o gofnodion Cyngor Cymuned Llanbedr a gyfarfu nos Iau Ebrill 4ydd 2024 am 7.30 yr hwyr yn y Ganolfan Gymdeithasol Llanbedr.

Yn Bresennol

Y Cadeirydd Eirwyn Thomas, Annwen Hughes, Kevin Titley, Robin Ward, Luise Vassey, Helen Johns, John Evans, a Jane Taylor Williams.

Ymddiheuriadau gan

Cyngh. Gwynfor Owen a Nia Jones.

Y Cadeirydd yn croesawu pawb I'r cyfarfod, ac yn nodi mae hwn fydd ei gyfarfod llawn olaf fel Cadeirydd. Bydd Jane Taylor Williams yn cymerud yr awennau yn y cyfarfod blynyddol ym Mis Mai.

Yn annog bawb I feddwl am olynnydd fel is gadeirydd.

*Datgan Buddiant – dim byd I'w ddatgan

*Ceisiadau Cynllunio

Dim ond un wedi dod I law sef cais cynllunio Erw Fair Llanbedr

Cais Rhif NP5/62/439 Dymchwel ac ail adeiladu o'r newydd

Dim gwrthwynebiad, dim ond nodi – gan obeithio na fydd y datblygiad yn creu unrhyw broblemau I'r annedd dai o gwmpas.

*Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf fel rhai cywir. RW yn cynnig a AH yn eilio.

*Derbynniwyd adroddiad cyllid

Bod £18184.69 yn y Banc ar ddiwedd y flwyddyn.

Nodwyd bod gwaith wedi ei wneud ar offer cae chwara ac wedi talu £1659.36 I G.L.Jones

Gwaith ar wal y fynwent a Never Cut hefyd wedi ei wneud a talu £5000. Gwaith canmoliadwy iawn

Taliadau zoom hefyd £215.96

Wedi anfon at yr Archwilydd Mewnol I wneud y Gwaith archwiliad eto eleni.

Angen cadarnhau na fydd unrhyw daliadau yn cael ei wneud fel hawlio lwfansau eto eleni.

Nodi hefyd nad yw'r anfoneb £700 I'r Archwiliad allanol wedi ei dalu hyd yma. (gan bod y Cyngor wedi talu £200 yn oormod iddynt mis Rhagfyr 2023)/

*Materion yn Codi o'r Cofnodion

1. Nifer o lecynnau angen eu torri – hysbysu Cyngor Gwynedd

Mynedfa o'r gogledd I'r Pentref – Tir Cae Nest.

Gwrych ger Capel Gwynfryn.

Tud 2.

Eiddew ger Pont Glanffrwd.

Drain ger CCF a'r Ysgol.

2. Cyfarfod gyda Cyngor Gwynedd – Llinos Angharad a Iwan ap Trefor parthed safleoedd cysgodfannau busiau yn Llanbedr.

Un ger Hafan Artro – I gael un perspectives yma gyda hanner ochrau. Gofalu nad oes yma unrhyw lecyn tywull wrth ymuno a'r ffordd o gyffordd Bryn Deiliog.

Y llall ger y fainc gyferbun a Victoria. Gwneuthuriad o bren, heb ochrau. Hwn yn fwy o gysgod na safle aros am y bws.

Rhain l'w cael o fewn cynllun Ennillion Cyflum y Llywodraeth.

3. Llwybrau Cyhoeddus a tendro

Ddoe oedd diwrnod I agor tendrau. Yn anffodus ni chafwyd neb yn ymgeisio. Gofyn eto l'r rhai a oedd wedi datgan diddordeb yn y gorffennol.

Diffyg ar Lwybr Taith Ardudwy ger Fferm Dinas, angen arwyddion ac ati.

Bod y map Taith Ardudwy ger y toiledau angen ei drwshio – y ffram dderw wedi pydru. Hefyd angen glanhau y map. Cysylltu gyda David Jones Warden Parc Cenedlaethol De y Parc.

*Trefnu Cyfarfod Cyngorau yr ardal ar gyfer 16.5.24 yn Llanbedr am 7.30

*Tyllau – pot holes ger y Glyn, ffordd Mochras – hysbysu Cyngor Gwynedd

*Gorsaf Dren Talwrn Bach – rhan o adroddiad gan Gwynfor Owen (ddim yn bresennol)

Nododd dros y ffon gyda'r Clerc – nad oes bwriad cael cysgodfan Newydd yma, y platform ddim yn ddigon cryf. Wedi twtio yr un presennol. ***** er bod Llinos Angharad wedi nodi mewn e bost yn ddiweddarach bod hyn yn ol ar y gweill.

Falle bydd posib cael yr arwydd gyda'r enw Talwrn Bach arno maes o law.

Mae'r bariau diogelwch yn dal yn bosib.

Cost o 2 filiwn. Medd y Cadeirydd

Bin baw cwn – ei fod ef wedi son yn y cyfarfod gyda "Cambrian Coast liaison committee yn ddiweddar parthed y bin baw cwn. Trio dwyn perswad ar l Gyngor Gwynedd a TFW gyd weithio, ac l Gyngor Gwynedd wagio bin sbwriel oddi ar y platform. (gan gynnwys y baw cwn)

Nodwyd yn y Cyngor bydda o fantais anfon gair at Lee Robinson parthed hyn.

*Adroddiad gan Cyngorydd Annwen Hughes

a)Siom o orfod nodi bod yna fandaliaeth wedi ei wneud l'r toiledau dynion, a oedd newydd gael eu gwella.

Wedi blocio un o'r system gyda papur toiled.Wedi malu y bwrdd newid clytiau.

Tud 3

Mae hyn yn amddifadu ni yn Llanbedr – ac ni fyddwn yn cael un arall ar y safle. Trist iawn, gan gofio bod arian trethdalwyr Llanbedr yn mynd at y gwelliannau hyn.

b) Yn Dilyn e bost a gafwyd gan Kevin Titley – parthed yn Bryn Deiliog. Cyfeiriwyd y mater at Gyngor Gwynedd. Deallwyd mae diffyg y caeadau haern yn y ffyrdd – Gwaith angen eu trwsio gan Gwaith gwterydd y Bwrdd Dwr dwr. (os na fyddent yn cylawni'r Gwaith yna byddent yn derbyn dirwy.

c) Wal Ty'n Ddol wedi ei thrwshio.

Ch) Gwaith ar y waliau cerrig ochr ffordd Cwm Bychan yn cael ei wneud ar hyn o bryd.

d) Angen torri brigau coeden gyferbun a gof golofn. O dir Ty Mawr. Hysbysu perchnogion Ty Mawr o hyn.

e) Angen paentio meinciau ger Capel Moreia a Hafan Artro.

f) Hysbys hwyr bod yna gyfarfod agored yn y Bermo 5.4.24 gyda 'r Heddlu.

Materion Eraill

*Nododd Robin a Luise am yr ymgynghoriad parthed Polisi Cynllunio Eryri.

Yn Dilyn fforwm Cymunedau yr Awdurdod a gynhaliwyd ar yr 20fed Mawrth 2024, yn trafod yr oedd ym mhroses Adolygu'r Cynllun Datblygu lleol a'r Ymgynghoriad ar Gyfarwyddyd Erthygl 4 sy'n dechrau dydd gwener 12 fed o Ebrill tan 24 o Fai. Deall bod pob cartref yn derbyn llythur yn egluro y sefyllfa fel mesur l geisio rheoli ail gartrefi a llety gwyliau

*John Evans yn holi a oedd rhywrai wedi symud l fyw l Ger y Llan – ty a brynwyd gan Gyngor Gwynedd ar gyfer ei osod l deulu lleol.

*Jane Taylor Williams yn nodi ei bod am drefnu diwrnod o glirio sbwriel yn y pentref

Yn enwedig o amgylch Glenydd, ble mae'r fynedfa at yr afon. Angen holi Cyngor Gwynedd a fyddai modd gosod giat yma.

*Coed yn gwreiddio ar ganllaw y ddwy bont – Bont Beser a Phont y Pentref. Cysylltu efo Cyngor Gwynedd.

*Tim tacluso – gofyn iddynt ddod l glirio tipyn yn y Pentref.

*Mater o ddiogelwch ar y ffordd – car yn parcio ochr isa l Capel Bach – ochr chwith l'r ffordd – l gyfeiriad Mochras. Angen cysylltu gyda Eilw Williams PCO

Eirwyn Thomas am dynnu llun camera fel tystiolaeth.

*Uwchraddio eich rhwydwaith band eang – l'r dyddiad 96% wedi addo eu talebau. Heb gyrraedd y cyfrif iawn hyd yma. Anodd iawn perswadio pobl l wneud hyn yn y Pentref.

Tud 4

Y broses – I dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru I wella band eang o dan y Cynllun Talebau Band Eang Gigabit. Hawlio taleb o £4500 fel cyfraniad at adeiladu rhwydwaith band eang Ffeibr Cyflawn Tra-chyflym ar gyfer y gymuned.